



**Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
Gorchmynion
Gwarcheidiaeth Arbennig
Polisi Ariannol
Tachwedd 2020**

Y Gyfarwyddiaeth Les

Enw a Lleoliad y Ddogfen	Polisi Ariannol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
Awdur	Alex Davies Rheolwr Tîm - Lleoliadau Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles / Social Services and Wellbeing Directorate Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council Ffôn / Phone: (01656) 642367 E-bost / E-mail: Alex.Davies@bridgend.gov.uk Gwefan / Website: www.bridgend.gov.uk
Perchennog y Ddogfen	Laura Kinsey Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant / Head of Children's Social Care Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council Ffôn / Phone: (01656) 642314 E-bost / E-mail: Laura.Kinsey@bridgend.gov.uk Gwefan / Gwefan: www.bridgend.gov.uk
Dyddiad Adolygu	Dylid adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd o leiaf ar ôl ei dyddiad cymeradwyo, ac ni ddylai'r adolygiad nesaf gael ei gynnal yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023. Gellir cynnal adolygiadau o fewn y cyfnodau hyn fel bo'r angen.
Hygyrchedd	Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Diweddariadau, Adolygiadau a Diwygiadau		
Fersiwn	Manylion y Newid	Dyddiad

Mynegai

Adran	Manylion	Tudalen
1	Cyflwyniad	4
2	Cymorth Ariannol i ddarpar Warcheidwaid Arbennig	5
3	Trosolwg o'r broses asesu ariannol	6
4	Dogfennau gofynnol	10
5	Cymhwyso'r prawf modd	12
6	Lwfans atodol	16
7	Cyfrifoldebau Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig	20
8	Adolygu	21
9	Terfynu taliadau	23
10	Atodiadau: Atodiad 1 - Datganiad Amgylchiadau Ariannol	25

1. Cyflwyniad

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â Pholisi Gwarcheidiaeth Arbennig CBSPO sy'n amlinellu fframwaith deddfwriaethol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chymorth ariannol i Warcheidwaid Arbennig ac adolygu'r cymorth hwnnw.

Mae Cymorth i Warcheidwaid Arbennig, gan gynnwys darpariaeth ariannol, wedi'i amlinellu yn Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a'r Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018.

Yn unol â'r Canllaw ar gyfer Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru 2020 (AFA), sy'n casglu canllawiau statudol ynghyd yn gysylltiedig â gofynion gwasanaethau cymorth fel yr amlinellwyd yn Neddff Plant 1989, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2018) a'r Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau cymorth i Warcheidwaid Arbennig.

Er mwyn i warcheidwaid arbennig dderbyn lwfans ariannol, mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion asesu ac adolygu, yn unol â'r weithdrefn ariannol a amlinellir yn y ddogfen hon.

2. Cymorth Ariannol i Ddarpar Warcheidwaid Arbennig

2.1 Yn ôl rheoliadau'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig dylid darparu cymorth ariannol os oes angen hynny i sicrhau bod modd sicrhau trefniadau ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Ni ddylai cymorth ariannol fod yn unig reswm pam nad yw trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig yn goroesi. Mae hyn yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal a phlant nad ydynt yn derbyn gofal.

2.2 Gellir darparu cymorth ariannol ar ffurf:

- un cyfandaliad i fodloni angen penodol a aseswyd
- cyfres o gyfandaliadau i fodloni angen penodol a aseswyd
- taliad cyfnodol neu reolaidd sy'n daladwy bob hyn a hyn, yn unol â phenderfyniad yr awdurdod lleol i fodloni angen parhaus penodol a aseswyd.

2.3 Yn unol â'r Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â Gorchymynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018, gall yr awdurdod lleol ddechrau darparu cymorth ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

- (a) Bod plentyn sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn byw gyda'r gwarcheidwad arbennig, ac mae'r awdurdod lleol o'r farn fod angen cymorth ariannol er mwyn sicrhau bod y gwarcheidwad yn gallu parhau i ofalu am y plentyn.
- (b) Bod plentyn y ceisir gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ar ei gyfer, neu y mae llys wedi gwneud cais am adroddiad amdano, yn byw gyda darpar warcheidwad arbennig, a bod yr awdurdod lleol o'r farn:
 - i. y byddai creu gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig o fudd i'r plentyn
 - ii. bod angen cymorth ariannol i sicrhau y gall y darpar warcheidwad arbennig barhau i ofalu am y plentyn, tra'n disgwyl penderfyniad y llys.

Mae'r ddarpariaeth hon caniatáu cymorth ariannol lle bo'r awdurdod lleol o blaid gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, ond o'r farn bod amheuaeth a fydd perthynas y plentyn â'r darpar warcheidwad arbennig y llwyddo yn y tymor hir heb ddarparu cymorth o'r fath tra bo'r cais dan ystyriaeth.

- 2.4 Ym mhob achos, ni cheir ond darparu cymorth ariannol ar ôl cynnal asesiad ariannol Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i bennu'r swm i'w dalu, ac i sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwneud penderfyniad deallus ynghylch y Gorchymyn hwnnw.
- 2.5 Yn unol â Rheoliadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ni chaiff cymorth ariannol i Warcheidwaid Arbennig ond ychwanegu at y cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r systemau budd-dal a chredyd treth - ni chaiff ddyblygu'r cymorth hwnnw. Gan hynny, mae'n rhaid i bob Gwarcheidwad Arbennig wneud cais am fudd-dal plant a chredyd treth plant y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Bydd y swm hwn yn cael ei ddidynnu o gyfanswm lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig sydd i'w dalu.
- 2.6 Ni chaiff cymorth ariannol gynnwys unrhyw elfen o gydnabyddiaeth am ofalu am y plentyn, ond mae Rheoliad 7(4) (Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018) yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ddarparu cymorth ariannol sy'n uwch na'r lefel arferol i ofalwr maeth blaenorol. Nid yw hon yn hawl awtomatig.

3. Trosolwg o'r broses asesu ariannol

3.1 Bydd asesiadau ariannol naill ai'n cael eu cynnal:

- Yn dilyn penderfyniad y bydd asesiad llawn ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn mynd rhagddo,
- Yn rhan o Asesiad Unigolion Cysylltiedig neu
- Pan fydd darpar ymgeisydd cymwys yn gwneud cais am asesiad amodol yn sail ar gyfer penderfynu.

3.2 Er mwyn cwblhau'r asesiad ariannol, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Asesu a bennir yn cyflwyno ffurflen gais ariannol ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar ffeil yr ymgeisydd ar WCCIS. Ar ôl marcio'r ffurflen 'wedi'i chwblhau', bydd Tîm Asesu Ariannol CBSPO yn derbyn hysbysiad ac wedyn yn cysylltu â'r ymgeisydd i gasglu a dilysu'r wybodaeth a'r dogfennau ariannol sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad. Os bydd unrhyw broblemau'n codi yn gysylltiedig â'r broses uchod, rhennir y problemau hynny â'r Gweithiwr Cymdeithasol Asesu.

3.3 Cyfrifoldeb y Gweithiwr Cymdeithasol Asesu yw sicrhau bod unrhyw Weithiwr Cymdeithasol a bennir i'r plentyn a'r Cyfreithiwr Gofal Plant yn cael y newyddion diweddaraf os oes unrhyw oedi i'r broses hon a bod yr achos yn mynd drwy'r llys.

3.4 Bydd copïau o'r dogfennau wedi'u dilysu yn cael eu trosglwyddo i Dîm Asesu Ariannol CBSPO a fydd yn datblygu mecanwaith i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chasglu, ei gweld a'i chadw yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016.

3.5 Bydd Tîm Asesu Ariannol CBSPO yn cymhwyso'r prawf modd (fel y manylir yn adran 5) i asesu a oes unrhyw lwfans yn daladwy yn gysylltiedig â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Yna anfonir y cyfrifiad drwy e-bost at y Gweithiwr Cymdeithasol Asesu i rannu a thrafod â'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Bydd yr e-bost yn

cadarnhau a yw'r holl ddogfennau gofynnol wedi'u derbyn yn unol â'r polisi hwn. Mae'r asesiad yn parhau i fod yn amodol nes i'r dogfennau ddod i law.

- 3.6 Os penderfynir bwrw ymlaen, bydd y swm taladwy, hyd y taliadau a'r raddfa amser ar gyfer adolygu wedi'u cynnwys yng nghynllun cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a'u cofnodi ar WCCIS.
- 3.7 Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol Asesu ofyn i warcheidwaid arbennig ddarparu manylion eu cyfrif banc (banc, cangen, cod didoli, rhif cyfrif ac enw deiliad/deiliaid y cyfrif) er mwyn sefydlu taliadau ar y cyfle cyntaf.
- 3.8 Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol Asesu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu'r Asesiad Unigolion Cysylltiedig, y cynllun cymorth a'r asesiad ariannol wedi'u cofnodi ar Gais Byw EDRM (neu gyfatebol) er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol os bydd unrhyw ymholiadau'n codi yn gysylltiedig â'r asesiad a'r cytundeb gwreiddiol.
- 3.9 Ar ôl caniatáu'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, bydd aelod o'r Tîm Sefydlogrwydd yn gyfrifol am sicrhau bod llythyr yn cael ei anfon at y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig yn cadarnhau'r canlynol:
- canlyniad yr asesiad ariannol
 - y swm, dyddiad dechrau a mynychder y taliadau
 - y gofyniad i wneud cais am Fudd-dal Tai a Chredyd Treth Plant
 - unrhyw amodau ychwanegol yn gysylltiedig â'r lwfans a chanlyniadau peidio bodloni'r amodau hynny
- 3.10 Os bydd y darpar warcheidwad arbennig yn gwrthod cydweithredu â'r broses asesu ariannol, ni fydd unrhyw lwfans yn daladwy.

- 3.11 Os canfyddir, wrth gwblhau'r asesiad, bod y darpar warcheidwad/warcheidwaid arbennig yn hawlio/heb fod yn hawlio ei fudd-dal lles yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ganolog, a bod pryderon yn codi ynghylch ceisiadau twyllodrus, bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'w drafod gan y Gweithiwr Cymdeithasol Asesu neu'r Tîm Sefydlogrwydd (yn achos adolygiad ariannol)
- 3.12 Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cymorth i ddarpar warcheidwaid gael 2 awr o gyngor cyfreithiol ar ôl cwblhau asesiad a chynllun cymorth er mwyn i helpu'r ymgeisydd/ymgeiswyr i wneud penderfyniad deallus a chyflwyno cais i'r llys.

4. Dogfennau gofynnol

4.1 Os yw un neu ddau o'r gwarcheidwaid arbennig sy'n ymgeisio:

- yn gyflogedig, mae angen slipiau cyflog am 3 mis neu 12 wythnos yn rhan o'r broses ddilysu.
- Ar gyfer ymgeiswyr hunangyflogedig, mae angen copi o'u ffurflen dreth a/neu gyfrifon busnes.
- I'r rhai nad ydynt yn gweithio, mae angen dilysu'r holl incwm budd-dal (naill ai drwy lythyr dyfarnu'r DWP neu mewn rhai amgylchiadau eithriadol, drwy gopi o gyfriflen banc).
- I'r rhai sy'n derbyn credyd treth plant/gwaith a chredyd pensiwn, mae angen copïau o'r hysbysiadau dyfarnu ac mae'r llythyr yr ydym yn ei anfon allan gyda'r ffurflen ariannol yn gofyn y benodol i gynnwys 'holl dudalennau' y llythyrau.
- Mae angen cyfriflenni banc hefyd ar gyfer yr holl gyfrifon am y 3 mis diwethaf.

4.2 Mae angen dilysu unrhyw incwm arall. Os canfyddir incwm sydd heb ei ddatgan ar gyfriflen banc, bydd yr Adran Gyllid yn holi'r ymgeisydd ynghylch hyn.

4.3 Gellir caniatáu lwfans o fewn yr asesiad ariannol ar gyfer costau fel morgais, rhent, y dreth gyngor ac ati. Mae'n ofynnol dilysu'r costau hyn, a byddwn yn gofyn am brawf ohonynt.

4.4 Pan ganfyddir bod gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr hawl i dderbyn budd-dal oedolyn, ond nad yw'n manteisio ar hynny, hysbysir yr ymgeisydd/ymgeiswyr fod ganddo/ganddynt hawl i wneud cais am fudd-dal ychwanegol a rhoi cyfle iddo/iddynt wneud cais amdano. Bydd yr Adran Gyllid wedyn yn mynd ar drywydd y cais hwnnw ymhen amser. Os na chyflwynir y cais, bydd yr Adran Gyllid yn gofyn cyngor y Gweithiwr Cymdeithasol Asesu ynghylch a fydd swm y budd-dal sydd fel arfer yn daladwy yn cael ei ystyried fel incwm, yn rhan o'r weithdrefn asesu.

- 4.5 Pan fydd hawl i dderbyn budd-dal plant ac/neu gredyd treth plant wedi'i nodi a'r ymgeiswyr wedi gwneud cais amdano ond yn disgwyl am y dyfarniad, bydd yr incwm hwn wedi'i gynnwys yn y lwfans a'i hawlio'n ôl naill ai o'r dyfarniad ôl-ddyddiedig, neu drwy addasu'r lwfans.
- 4.6 Mae'n rhaid i warcheidwaid hysbysu'r tîm cymorth busnes Gofal gan Berthynas pan fyddant yn dechrau derbyn y budd-dal, a darparu copi o'r llythyr dyfarnu. Pwrpas hyn yw osgoi unrhyw oedi diangen wrth wneud taliadau cywir, a threfnu opsiynau ad-dalu os oes angen.

5. Cymhwyso'r prawf modd

Incwm

- 5.1 Rhoddir ystyriaeth i gyfanswm incwm wythnosol net y gwarcheidwad/gwarcheidwaid arbennig (ar ôl didynnu treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn). Bydd unrhyw ddiidyniadau a wneir wrth y ffynhonnell am eitemau fel tocyn tymor misol, lwfans teithio, benthyciadau, aelodaeth clwb ffitrwydd ac ati yn cael eu hadio yn ôl i'r cyfanswm incwm net.
- 5.2 Bydd angen cynnwys pob incwm rheolaidd arall i ddibenion y prawf modd, hy o rai nad ydynt yn ddibynyddion, plant y gwarcheidwad ei hun, perthnasau, gosod eiddo a llety, incwm o gynilion a buddsoddiadau, pensiynau, gorchmynion llys, taliadau cynhaliaeth plant, yr holl incwm o fudd-daliadau gan gynnwys credyd treth gwaith a chredyd treth plant, a'r holl daliadau budd-dal plant.
- 5.3 Ar ben hynny, yn rhan o'r cais am lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, bydd angen datgelu unrhyw incwm nad yw wedi'i restru uchod. Gall y rhain gynnwys unrhyw daliadau a dderbynnir yn gysylltiedig â Mabwysiadu, Gorchmynion Preswyllo, Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n bodoli eisoes a Lwfans(au) Byw i'r Anabl, ymhlith eraill Nid yw incwm o'r taliadau hynny wedi'u cynnwys yn y prawf modd, ond mae angen manylion amdanynt i ddilysu'r wybodaeth ar y cyfriflenni banc.
- 5.4 Lle bo'r unigolyn ifanc (sy'n destun cais Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig) neu unigolyn ifanc arall ar yr aelwyd, yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) neu incwm sy'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddi cyflogaeth y llywodraeth, ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys wrth asesu incwm yr aelwyd.
- 5.5 Bydd rhai sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gorfod derbyn asesiad ariannol llawn.
- 5.6 Ni ystyrir unrhyw lwfansau maethu na ffioedd cydnabod maethu a dderbynnir gan warcheidwaid arbennig ar gyfer unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal y maent yn gofalu

amdano, boed y plentyn hwnnw'n destun y cais neu beidio, fel incwm i ddibenion asesu.

- 5.7 Bydd incwm i ymgeiswyr hunangyflogedig yn seiliedig ar eu henillion personol. Bydd elw hefyd wedi'i gynnwys fel incwm a'i rannu ar gyfartaledd dros 52 o wythnosau (er mwyn cyfrifo ffigur ar gyfer incwm wythnosol).
- 5.8 Mae incwm rhent wedi'i gynnwys yn llawn. Fodd bynnag, pan drefnir y rhent drwy asiantaeth gosod, dim ond ffigur y rhent terfynol fydd wedi'i gynnwys (ar ôl caniatáu ar gyfer ffioedd rhentu)
- 5.9 Dim ond y llog o incwm a gynhyrchir o fuddsoddiadau cyfalaf a chynilion a ystyrir yn yr asesiad ariannol.
- 5.10 Pan fydd ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen dreth hunanasesu i CaThEM o fewn y flwyddyn ddiwethaf, bydd angen copi o'r ffurflen honno.
- 5.11 Ni ddylid cynnwys taliadau o Ddyfarniadau lawndal am Anafiadau Troseddol yn yr asesiad ariannol, ond dylid darparu copi o'r dogfennau dyfarnu i'r Tîm Asesu Ariannol er mwyn dilysu'r wybodaeth a ddarperir.
- 5.12 Diystyrir llog ar gyfalaf sy'n eiddo i'r plentyn. Dim ond llog ar gyfalaf yr ymgeisydd a gaiff ei ystyried.
- 5.13 Bydd gwariant cyffredinol y cartref ar eitemau fel bwyd, trafnidiaeth, dillad, cyfleustodau (nwy, trydan a dŵr), hamdden ac ati yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio cyfraddau'r lwfans Cymhorthdal Incwm gyda chynnydd o 25%.

Cyfrifo

- 5.14 Mae'r gyfradd uchaf ar gyfer Lwfans Gwarcheidiaeth Arbennig yn gyfwerth â chyfraddau lwfans maethu lefel 1 CBSPO onid oes angen lwfans atodol oherwydd amgylchiadau eithriadol.
- 5.15 Bydd incwm gwario'r teulu yn cael ei gyfrifo drwy adio costau llety a gwariant cyffredinol y cartref/ffigurau lwfans personol a gosod hyn yn erbyn yr incwm asesadwy. Bydd hyn yn creu swm sy'n hafal i incwm gwario. Penderfynir canlyniad yr asesiad ar sail y swm o incwm gwario:
- Os mai canlyniad yr asesiad ariannol yw 'sero', ni wneir unrhyw daliad i'r ymgeisydd/ymgeiswyr.
 - Os yw canlyniad yr asesiad ariannol (a) yn is na'r gyfradd faethu berthnasol llai budd-dal plant (b), telir y ffigur isaf (a).
 - Os yw canlyniad yr asesiad ariannol (a) yn uwch na'r gyfradd faethu berthnasol llai budd-dal plant (b), bydd yr uchafswm wythnosol yn daladwy (b).
 - Os yw'r ymgeisydd yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant) nid oes angen cynnal y prawf modd. Byddai'r unigolyn yn derbyn y lwfans/gyfradd faethu berthnasol llai budd-dal plant llai credyd treth plant (yn amodol ar gyflwyno prawf o dderbyn y budd-dal plant cymwys a phrawf o'r credyd treth plant).
- 5.16 Ar ôl awdurdodi'r asesiad ariannol, anfonir e-bost at y Tîm Sefydlogrwydd yn manylu ar ganlyniad yr asesiad ariannol. Bydd copi o'r asesiad ariannol hefyd wedi'i atodi ynghyd â chopi o ffurflen canlyniad asesu y gellir ei hanfon ymlaen at yr ymgeiswyr.
- 5.17 Telir lwfansau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn wythnosol ac ymlaen llaw.

6. Lwfans Atodol

- 6.1 Mae'n bosibl y ceir achosion eithriadol lle bydd angen cymorth ariannol yn ychwanegol at gyfradd y lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i gefnogi trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig.

- 6.2 Caiff awdurdodau osod amodau a ystyrir yn briodol ganddynt wrth ddarparu cymorth ariannol. Gallai hyn gynnwys pennu graddfa amser a diben i'r cymorth ariannol.
- 6.3 Nid yw'r lwfans atodol yn ddarostyngedig i'r broses asesu ariannol ar gyfer y lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig na'r prawf modd a ddisgrifiwyd yn flaenorol, ac fe'i telir yn ychwanegol at y lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.
- 6.4 Gellid caniatáu lwfans atodol i dalu costau untro neu gostau rheolaidd yn gysylltiedig ag angen penodol, a gellid ei gyfyngu gan amser. Gellir ei ddyfarnu yn yr amgylchiadau canlynol:

Plentyn a oedd gynt yn blentyn maeth i'r Ymgeisydd

- 6.5 Os rhoddir Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i ymgeisydd a oedd gynt yn darparu gofal maeth i'r plentyn y mae'r Gorchymyn ar ei gyfer, bydd y Gwarcheidwad Arbennig yn derbyn lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig sydd gyfwerth â lwfans maethu lefel 1 CBSPO, llai credyd treth plant a budd-dal plant am 2 flynedd, waeth beth fo canlyniad asesiad y prawf modd.
- 6.6 Os rhoddir Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i ymgeisydd a oedd gynt yn darparu ofal maeth i'r plentyn y mae'r Gorchymyn ar ei gyfer, a oedd gynt yn derbyn ffi gofalwr maeth, gellir talu lwfans atodol sydd gyfwerth ag elfen ffi seiliedig ar sgîl briodol CBSPO am uchafswm o ddwy flynedd yn ôl doethineb Pennaeth y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn unol â Rheoliad 7(4) (Rheoliadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig Cymru 2005).
- 6.7 Mae'r uchod yn berthnasol i ofalwyr maeth CBSPO ac i ofalwyr Asiantaethau Maethu Annibynnol. Y lwfans atodol uchaf a delir er mwyn helpu Gwarcheidwad Arbennig i

newid o fod yn ofalwr maeth i fod yn Warcheidwad Arbennig i blentyn, yw elfen ffi CBSPO sy'n berthnasol ar adeg rhoi'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, oni ellir rhoi tystiolaeth, gyda thystiolaeth ysgrifenedig ategol y byddai hyn yn arwain at niwed sylweddol. Ni fydd y cyfraddau hyn yn cynyddu i gyd-fynd â chwyddiant nac unrhyw newidiadau eraill, a byddant yn aros ar y lefel sylfaenol honno hyd ddiwedd y Gorchymyn

- 6.8 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr awdurdod lleol gytuno i ymestyn cyfnod y lwfans atodol y tu hwnt i 2 flynedd.

Amgylchiadau Eithriadol

- 6.9 Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir rhoi lwfans atodol i ddiben penodol. Gall y taliadau atodol hyn fod yn daliad untro neu'n daliadau rheolaidd o natur barhaus, a rhaid eu cynnwys yn y cynllun cymorth. Mae'n rhaid cael angen wedi'i asesu, a darparu tystiolaeth briodol. Dyma enghreifftiau o amgylchiadau o'r fath, ond ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr.

- Costau sefydlu - ee, dodrefn neu gyfarpar ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig, addasiadau i'r cartref neu i gefnogi plentyn ag anabledd;
- Lleoli'r plentyn mewn ysgol breswyl - ee lle aseswyd bod angen hynny i fodloni anghenion addysgol arbennig y plentyn.
- Ffioedd llys / cyfreithiol - ee lle bo tystiolaeth i gefnogi fod hyn yn achosi risg barhaus i sefydlogrwydd y trefniant Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig
- Hwyluso cyswllt - ee ffi canolfan gyswllt, costau teithio. Byddai'r costau cysylltiedig yn cael eu cyfrifo ar sail flynyddol a'u talu drwy lwfans wythnosol cyfartalog.
- Cyfryngu - ee lle ceir dynameg teuluol cymhleth a fydd yn cael effaith niweidiol ar les y plentyn os nad ymdrinnir â hynny.

- Gwasanaethau therapiwtig - ee ar gyfer y plentyn, y Gwarcheidwad Arbennig neu'r ddau

- Caledi ariannol - ee lle bo Gwarcheidwad Arbennig wedi rhoi'r gorau i'w swydd er mwyn gofalu am y plentyn a bod yn rhaid i'r gofalwr barhau i aros gartref i gefnogi'r plentyn oherwydd ei anghenion. Gall yr awdurdod lleol gytuno i ymestyn cyfnod y lwfans atodol nes bo'r plentyn mewn addysg amser llawn.

6.10 Efallai y bydd maint y gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen ar blentyn â salwch, anabledd, anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, neu sy'n dioddef canlyniadau parhaus camdriniaeth neu esgeulustod o'r gorffennol, yn golygu bod angen gwariant ychwanegol. Yn yr achosion hyn, bydd gweithwyr proffesiynol meddygol a gweithwyr proffesiynol eraill yn cyfrannu at werthuso effaith cyflwr y plentyn, ac yn rhoi cyngor i'r awdurdod lleol. Disgwylir i'r awdurdod lleol ofyn am gyngor meddygol arbenigol os yw'n briodol, ac ystyried y cyngor hwnnw wrth ystyried yr angen i dalu unrhyw lwfans atodol yn ychwanegol at y gyfradd lwfans sylfaenol er mwyn cefnogi'r gwarcheidwad arbennig. Bydd y taliad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac wedi'i gyfyngu gan amser. Yn yr amgylchiadau hyn bydd angen i Reolwr Grŵp awdurdodi'r amgylchiadau ar gyfer y lwfans atodol, i gynorthwyo'r teulu am gyfnod penodol.

6.11 Os bydd y cymorth ariannol atodol a nodir yn y cynllun cymorth (naill ai'n wreiddiol neu'n ddiweddarach) yn uwch na £500 mewn unrhyw flwyddyn ariannol unigol, bydd angen i Bennaeth y Gwasanaethau Plant hefyd awdurdodi'r cynllun cymorth cyn ei gyflwyno i'r llys neu ei ddarparu.

6.12 Bydd yr angen am wariant ychwanegol parhaus yn cael ei ailasesu bob blwyddyn yn rhan o'r weithdrefn adolygu lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, neu lle ceir newid o bwys mewn amgylchiadau. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfa lle bo'r Gwarcheidwad Arbennig yn hysbysu na chafwyd cyswllt, lle bo lwfans atodol yn cael ei dalu i hwyluso cyswllt.

- 6.13 Bydd yn rhaid amlinellu unrhyw gytundebau i dalu lwfans atodol mewn ysgrifen o fewn Cynllun Cymorth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, gan gynnwys manylion penodol fel y swm a gytunwyd, diben yr arian a hyd y taliadau.
- 6.14 Os ceir methiant ar ran y Gwarcheidwad Arbennig i gadw at drefniadau adolygu ariannol bydd unrhyw lwfans atodol yn dod i ben. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn ceisio adennill unrhyw swm o lwfans atodol a ordalwyd, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd lle nad yw Gwarcheidwad Arbennig wedi hysbysu'r awdurdod lleol fod amgylchiadau wedi newid.
- 6.15 Ni fydd swm y lwfans neu'r lwfans atodol ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn gysylltiedig â'r plentyn, os yw'n berthnasol, yn cynyddu dros gyfnod y gorchymyn, onid oedd y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid gynt yn ofalwyr maeth a chanddynt hawl i lwfansau gwarchodedig o dan y polisi, neu ond ar ôl cynnal adolygiad asesu ariannol.

7. Cyfrifoldebau Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig

- 7.1 Os yw'r gwarcheidwad/gwarcheidwaid arbennig yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol ar ôl y prawf modd, mae'n rhaid iddo hysbysu'r Tîm Sefydlogrwydd ynghylch y canlynol o fewn 14 diwrnod:
- Unrhyw newid i gyfeiriad/rhif ffôn neu fanylion cyswllt ychwanegol fel cyfeiriad e-bost

- os oes newid sylweddol i'w hamgylchiadau ariannol eu hunain ac/neu i amgylchiadau ariannol eu plentyn
- os oes newid mewn perthnasoedd teuluol (ee, partner newydd neu'r gwarcheidwaid arbennig yn gwahanu) sy'n effeithio ar incwm/gwariant yr aelwyd
- bod y plentyn yn rhoi'r gorau i addysg amser llawn, hy rhwng 16 ac 18 oed ac yn dechrau swydd
- bod yr unigolyn ifanc yn gymwys i dderbyn Cymhorthdal Incwm neu lwfans ceisio gwaith yn ei hawl ei hun.

7.2 Bydd yn rhaid hysbysu'r Tîm Sefydlogrwydd ar unwaith os:

- nad yw'r plentyn yn byw gyda hwy'n barhaol mwyach
- os yw'r plentyn yn marw
- os nad yw'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn weithredol mwyach (os yw'r plentyn wedi troi'n 18 neu os yw'r Gorchymyn wedi'i ddirymu gan y Lllys).

7.3 Mae'n ofynnol i warcheidwaid arbennig hysbysu'r awdurdod lleol am gynnydd eu ceisiadau am Fudd-dal Plant a Chredyd Treth Plant cyn pen 4 wythnos ar ôl rhoi Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Os na wneir hynny, bydd taliadau'n cael eu hatal tra'n disgwyl yr wybodaeth ofynnol.

8. Adolygu

8.1 Bydd ailasesiad blynyddol yn cael ei gynnal o bob achos flwyddyn ar ôl dyddiad caniatáu'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Fodd bynnag, byddai newid i amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd yn ysgogi asesiad ariannol pellach o fewn cyfnod o 12 mis. Er mwyn sicrhau hyn, bydd dogfennau'r adolygiad yn cael eu hanfon at y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig 2 fis cyn y dyddiad cyflwyno.

- 8.2 Bydd y Tîm Sefydlogrwydd yn gyfrifol am amserlennu adolygiadau ar y cyd â'r Adran Gyllid. Fodd bynnag, dylai unrhyw newidiadau a allai gael eu nodi ar y pecyn cymorth yn ei gyfanrwydd cyn dyddiad yr adolygiad ariannol, a fyddai'n cael effaith ar unrhyw gymorth ariannol a gynigir, gael eu hanfon ymlaen i'r Tîm Sefydlogrwydd er mwyn cynnal adolygiad cyn dyddiad yr adolygiad blyneddol os oes angen.
- 8.3 Gall methu â chyflwyno asesiad neu adolygiad wedi'i gwblhau arwain at atal lwfansau. Bydd gwarcheidwaid arbennig yn cael gwybod am hyn mewn ysgrifen. Ni fydd taliadau'n cael eu hailsefydlu nes bo'r dogfennau gofynnol wedi dod i law'r Tîm Asesu Ariannol, yr asesiad ariannol wedi'i gwblhau a phenderfyniad cadarnhaol wedi'i wneud. Gwneir nifer resymol o ymdrechion i gysylltu â'r gofalwr er mwyn trefnu asesiad/i'r gofalwr ddarparu tystiolaeth ariannol wyneb yn wyneb neu drwy e-bost/drwy'r post cyn terfynu'r taliad. Bydd yn RHAIID cofnodi POB ymgais i ohebu yn glir ar WCCIS gan nodi erbyn pa ddyddiad y disgwylir i'r gofalwr ymateb.
- 8.4 Mae'n bosibl y bydd y lwfans Cynllun Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n gysylltiedig â'r plentyn yn gostwng neu'n dod i ben yn dilyn adolygiad neu ailasesiad.
- 8.5 Mae'n bosibl y bydd adolygiad hefyd yn cael ei gynnal o'r lwfans ar unrhyw bryd os bydd y gwarcheidwaid arbennig yn hysbysu'r awdurdod am unrhyw newid o bwys i'w hamgylchiadau ariannol eu hunain, neu i amgylchiadau ariannol y plentyn.
- 8.6 Pan fydd llywodraeth ganolog yn cyflwyno newidiadau i fudd-daliadau, efallai y bydd angen adolygu'r polisi hwn a'r weithdrefn hon. Ni chaiff unrhyw daliadau unigol eu newid oni wneir hynny yn sgil diweddarau polisi a gweithdrefn, ac yn dilyn adolygiad asesu ariannol.

9. Terfynu taliadau

- 9.1 Bydd yr holl daliadau lwfans yn dod i ben pan geir y cyntaf o'r digwyddiadau canlynol:
- Nad yw'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn weithredol mwyach (ee, gan fod y plentyn wedi troi'n 18 oed) neu fod y Gorchymyn wedi'i gyflawni neu ei amrywio gan y Llys.

- Nad yw'r plentyn yn byw'n barhaol gyda'r Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig mwyach (neu, os oes dau neu fwy o Warcheidwaid Arbennig, nad yw'r plentyn yn byw gydag unrhyw un ohonynt mwyach).
- Marwolaeth y plentyn y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo.
- Bod y plentyn yn rhoi'r gorau i addysg amser llawn, hy rhwng 16 ac 18 oed ac yn dechrau swydd. Ni fydd y lwfans cynhaliaeth addysg na chynlluniau hyfforddi'r llywodraeth i bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed yn cael eu cynnwys fel incwm ar gyfer lwfans y Cynllun Gwarcheidiaeth Arbennig. Bydd y Tîm Sefydlogrwydd yn cysylltu â'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn ystod mis Awst bob blwyddyn ar ôl penblwydd y plentyn yn 16 oed er mwyn cadarnhau statws addysgol y plentyn. Bydd angen darparu tystiolaeth o fewn nifer penodol o wythnosau ar ôl i'r unigolyn ifanc ddechrau ei addysg/leoliad yn nhymor mis Medi (copïau o'i gerdyn adnabod ar gyfer y coleg ac ati, neu gellir anfon llythyr ysgrifenedig drwy e-bost/ei bostio/ei ddangos i'r gweithiwr penodedig).
- Bod yr unigolyn ifanc yn dod yn gymwys i dderbyn Cymhorthdal Incwm neu lwfans ceisio gwaith yn ei hawl ei hun.
- Bod yr ymgeisydd/ymgeiswyr yn gwrthod cyflwyno'r wybodaeth ofynnol er mwyn cynnal ailasesiad ariannol.

9.2 Gan mai un asesiad ariannol a gynhelir, yn cynnwys yr holl blant a leolir gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr o dan unrhyw Orchymyn Llys, os bydd un Gorchymyn yn dod i ben, bydd yr holl daliadau lwfans hefyd yn dod i ben, a bydd angen cynnal ailasesiad ar gyfer y plant sy'n weddill ac a leolir gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Bydd yr ailasesiad hwn i ddechrau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr ailasesiad diweddaraf, nes bod modd cynnal ailasesiad llawn ar gyfer y plant sy'n weddill.

9.3 Pan fydd lwfans atodol wedi'i gytuno i gefnogi'r broses o newid o ofalwr maeth i Warcheidwad Arbennig, bydd unrhyw daliad o'r fath yn dod i ben ar ôl dwy flynedd, onid yw'r Pennaeth Gwasanaeth wedi cytuno ar amgylchiadau eithriadol. Yn yr achosion hyn, bydd y taliad yn dod i ben ar y dyddiad a bennwyd ymlaen llaw ac a

amlinellwyd yng Nghynllun Cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Onid yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol (9.1).

Datganiad Amgylchiadau Ariannol

Gwarcheidiaeth Arbennig

Cyfeirnod:

SA_FINDEC

Enw'r Ymgeisydd 1^{af}: _____ (Mr / Mrs / Miss / Arall)

Dyddiad Geni: _____

Enw'r 2^{il} Ymgeisydd: _____ (Mr / Mrs / Miss / Arall)

Dyddiad Geni: _____

Cyfeiriad Cartref: _____

Rhif Ffôn Cartref: _____

Rhif Ffôn yn Ystod y Dydd: _____

1. Eraill sy'n byw ar yr aelwyd

Enw	Dyddiad Geni	Perthynas â'r Ymgeisydd / Ymgeiswyr (Plentyn genedigol, plentyn maeth, plentyn wedi'i fabwysiadu, ac ati)	Addysg Amser Llawn Ydy / Nac ydy

2a. Manylion Enillion(Cyflogaeth)

Yr Ymgeisydd 1 ^{af} .		Yr 2 ^{il} Ymgeisydd	
Enw:		Enw:	
Natur y Gyflogaeth:		Natur y Gyflogaeth:	
Enw'r Cyflogwr:		Enw'r Cyflogwr:	
Cyfeiriad y Cyflogwr:		Cyfeiriad y Cyflogwr:	
Enillion Gros Cyfartalog:		Enillion Gros Cyfartalog:	
Enillion Net Cyfartalog: (ar ôl didyniadau)		Enillion Net Cyfartalog: (ar ôl didyniadau)	

**Bydd angen i chi ddarparu copïau o slipiau cyflog am 3 mis
(neu 12 wythnos os telir yn wythnosol)**

2b. Manylion Enillion(Hunangyflogedig)

Enw'r Ymgeisydd:	
Natur y Busnes:	
Cyfeiriad Busnes:	
Cod post:	
Bydd angen i chi ddarparu copi o'r ffigurau a gyflwynwyd i'r Swyddfa Drethi er mwyn Asesu Trethi ynghyd ag unrhyw gadarnhad bod y rhain wedi'u derbyn	

3. Lwfansau, Pensiynau a Budd-daliadau

	Yr Ymgeisydd 1 ^{af} .		2 ^{il} Ymgeisydd	
	Swm £	* Dileer fel bo'n briodol	Swm £	*Dileer fel bo'n briodol
Cymhorthdal Incwm		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Lwfans Ceisio Gwaith		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Credyd Treth Gwaith		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Credyd Treth Plant		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Credyd Pensiwn: Credyd Gwarant -		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Credyd Cynilo -		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Pensiwn Ymddeol		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Pensiwn Galwedigaethol (hen gyflogaeth)		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Lwfans Byw i'r Anabl - Gofal		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Lwfans Byw i'r Anabl - Symudedd		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Lwfans Gweini		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Budd-dal Analluogrwydd		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Anafiadau Diwydiannol		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Budd-dal Plant (ei blant ei hunain)		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Taliadau Cynhaliath Plant a Dderbynnir		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos
Arall (rhowch fanylion) _____ _____ _____		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos		Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos Bob wythnos/pythefnos/4 wythnos

4a. Llog / Incwm o gynilion a buddsoddiadau

Math o Incwm a Dderbyniwyd	Swm £	Mynychder

Darparwch gopïau o gyfriflenni banc am y 3 mis diwethaf ar gyfer pob cyfrif

4b. Unrhyw incwm arall (diystyrir lwfansau maethu)

Math o Incwm a Dderbyniwyd	Swm £	Mynychder

5. Unrhyw incwm arall a dderbynnir gan unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref (ee, plant, perthnasau eraill, lojers, plant wedi'u lleoli i'w maethu neu eu mabwysiadu gan asiantaethau eraill)?

Enw	Dyddiad Geni	Perthynas â'r Ymgeisydd	Swm £	Mynychder

6. Incwm eich plentyn *(gallai'r incwm hwn fod ar gyfer eich plant eich hun neu ar gyfer plant mabwysiedig)

	Enw'r Plentyn	Enw'r Plentyn	Enw'r Plentyn	Enw'r Plentyn
	Swm £	Swm £	Swm £	Swm £
Budd-dal Plant				
Lwfans Byw i'r Anabl - Gofal				
Lwfans Byw i'r Anabl - Symudedd				
Arall (nodwch os gwelwch yn dda)				

7. Treuliau a Gwariant

	Mynychder	Swm £
Morgais yn Daladwy		
Gwaddol Morgais		
Rhent (llai unrhyw Fudd-dal Tai a dderbynnir)		
Y Dreth Gyngor (llai unrhyw Fudd-dal Treth Gyngor a dderbynnir)		

8a. Gwariant Arall

	Manylion	Swm Wythnosol £
Taliadau cynhaliaeth / Gorchmynion Llys		
Cyfraniadau pensiwn preifat		
Yswiriant Gwladol (os yw'n hunangyflogedig)		
Costau gofal plant rhesymol (heb eu cynnwys yn elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith)		

8b. Ad-dalu Benthyciadau

Benthyciwr (Banc, Cymdeithas Adeiladu, ac ati)	Pwrpas y Benthyciad	Dyddiad Dechrau	Hyd y Benthyciad	Swm £

Bydd angen i chi ddarparu prawf o unrhyw gostau a restrir yn adrannau 7 ac 8

9. Gwybodaeth Ychwanegol

10. Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn ei lofnodi a nodi'r dyddiad.

- Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- Rwyf yn deall y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi i gyfrifo a oes gennyf hawl i dderbyn cymorth ariannol. Gallwch wirio peth o'r wybodaeth gydag adrannau eraill o'r Cyngor o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a chyda chynghorau eraill. Gallwch roi rhywfaint o wybodaeth i adrannau mewn cynghorau eraill, ac i sefydliadau llywodraeth fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- Gwn fod yn rhaid imi hysbysu Tîm Cyllid Amhreswyl y Cyngor mewn ysgrifen ar unwaith am unrhyw newidiadau i'm hamgylchiadau a allai effeithio ar swm y cymorth yr wyf yn ei dderbyn.
- Rwyf yn deall os wyf yn darparu gwybodaeth ffug o fwriad, y gallai camau gael eu cymryd yn fy erbyn i adennill yr holl gymorth ariannol yr wyf wedi'i dderbyn, neu gyfran ohono.

Llofnod yr Ymgeisydd 1^{af}: _____ Dyddiad: _____

Llofnod yr 2^{il} Ymgeisydd: _____ Dyddiad: _____

Sut rydym yn casglu gwybodaeth a'i defnyddio

- Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir gennym, ar y ffurflen hon ac o dystiolaeth ategol yr ydych yn ei rhoi inni, i brosesu eich cais am lwfans cymorth. Ar ôl inni gasglu eich gwybodaeth mae'n bosibl y byddwn yn ei rhannu ag adrannau eraill o'r cyngor er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth llawn ichi.
- Mae'n bosibl y byddwn yn gwirio gwybodaeth yr ydych chi (neu unrhyw un arall) wedi'i darparu inni yn erbyn gwybodaeth arall a ddelir gennym. Efallai y byddwn hefyd yn derbyn gwybodaeth gan gyrff a sefydliadau eraill, neu'n rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn gwirio cywirdeb eich gwybodaeth, i atal neu ganfod trosedd, i warchod arian cyhoeddus mewn ffyrdd eraill, neu am resymau a ganiateir yn ôl y gyfraith.
- Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Ni (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) yw'r rheolydd data i ddibenion Deddf Diogelu Data 2018.
- Os ydych chi eisiau gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth a ddelir gennym amdanoch, a'ch hawliau a'n hymrwymadau tuag atoch chi, mae datganiad Prosesu Teg y cyngor ar gael ar dudalennau diogelu data ein gwefan.